



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 650 (C.71)**

**2006 No. 650 (W.71)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

**Gorchymyn Digartrefedd  
(Addasrwydd Llety) (Cymru)  
2006**

**The Homelessness (Suitability of  
Accommodation) (Wales) Order  
2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Wrth gyflawni swyddogaeth ym maes tai i sicrhau fod llety ar gael ar gyfer ymgeisydd sy'n ddiartref, neu sydd dan fygythiad o gael ei wneud yn ddiartref, o dan Ran 7 (digartrefedd) o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"), rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau fod y llety'n addas (adran 206(1)). Mae adran 210 yn pennu'r materion sydd i'w hystyried pan fyddir yn penderfynu ar addasrwydd llety at ddibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996.

When discharging a housing function to secure that accommodation is available for an applicant who is homeless, or threatened with homelessness, under Part 7 (homelessness) of the Housing Act 1996 ("the 1996 Act"), a local housing authority must ensure that the accommodation is suitable (section 206(1)). Section 210 specifies matters to be taken into account when determining suitability of accommodation for the purposes of Part 7 of the 1996 Act.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pŵer datganoledig i bennu materion ychwanegol o dan adran 210. Yn flaenorol, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) 1996 (O.S. 1996/3204) a oedd yn nodi y dylid, wrth benderfynu at ddibenion Rhan 7 os yw llety'n addas ar gyfer person, gymryd i ystyriaeth p'run ai a yw'r llety'n fforddiadwy ar gyfer y person hwnnw neu beidio. Roedd y Gorchymyn hwnnw'n rhestru materion penodol a oedd i'w hystyried mewn perthynas â fforddiadwyedd.

The National Assembly for Wales has the power to specify additional matters under section 210. The Secretary of State previously made the Homelessness (Suitability of Accommodation) Order 1996 (S.I. 1996/3204) which specified that in determining for the purposes of Part 7 whether accommodation is suitable for a person, there is to be taken into account whether or not the accommodation is affordable for that person. That Order listed particular matters to be considered with reference to affordability.

**Gelwir y Gorchymyn hwn yn Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) 2006 ac mae mewn tair rhan.**

**This order is called the Homelessness (Suitability of Accommodation) order 2006 and is in three parts.**

Daw **Rhan 1** o'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2006. Mae'n dibynnu ar y pŵer yn adran 210(2)(b) o Ran 7 o Ddeddf 1996. Mae Rhan 1 yn gymwys ar gyfer personau y mae eu hanghenion yn flaenoriaeth yn ôl diffiniad adran 189 o Ddeddf 1996. O dan adran 210(2)(b), mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r materion sydd i'w hystyried pan fyddir yn penderfynu ar p'run ai a yw llety'n addas ar gyfer person. Mae'r materion ychwanegol hyn yn ymwneud ag anghenion iechyd y

**Part 1** of this Order comes into force on 3 April 2006. It relies on the power in section 210(2)(b) of Part 7 of the 1996 Act. Part 1 applies to persons in priority need as defined by section 189 of the 1996 Act. Under section 210(2)(b), this Order specifies matters to be taken into account in determining whether accommodation is suitable for a person. These additional matters relate to the health needs of the person, any disability of the person and the proximity

person, unrhyw anabled sydd gan y person a pha mor hygyrch yw'r gwasanaethau cymdeithasol a chymorth arall ar eu cyfer.

Daw **Rhan 2** o'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Ebrill 2007. Mae'n gymwys i lety a gynigir o dan Ran 7 o Ddeddf 1996. Mae'r Rhan hon yn dibynnu ar y pwerau yn adran 210(2)(a) a (b) o Ran 7 o Ddeddf 1996. Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn nodi na ellir ond ystyried llety Gwely a Brecwast fel yn addas at ddibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996 os yw'n cydymffurfio â Safon Sylfaenol. Mae'r Safon Sylfaenol yn mynnu fod y llety Gwely a Brecwast yn y lle cyntaf yn bodloni'r holl ofynion statudol. Mae'r rheiny'n cynnwys diogelwch tân a nwy, caniatâd cynllunio a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth (pan fo angen). Rhaid i'r fangre hefyd fod yn cael ei rheoli gan berson cymwys a phriodol. Rhaid i Awdurdodau Tai Lleol gymryd i ystyriaeth y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf 1996 wrth asesu a yw person yn gymwys a phriodol.

Mae Rhan 2 ymhellach yn nodi, yn Erthygl 5, amgylchiadau ychwanegol pryd na ellir ystyried bod llety'n addas. Mae'n gwneud hyn drwy bennu safonau gofynnol ar gyfer llety Gwely a Brecwast a ddefnyddir ar gyfer aelwydydd sy'n cynnwys person ifanc dan oed neu fenyw feichiog, un ai ar eu pennau'u hunain neu gyda phersonau eraill. Mae hyn yn cynnwys aelwydydd sy'n cynnwys yn unig un neu ragor o bersonau ifanc dan oed, sy'n 16 neu 17 oed. Mae Erthygl 5 yn nodi, pan ddarperir llety o dan ddyletswydd o dan Ran 7 o Ddeddf 1996 i aelwyd sy'n cynnwys person ifanc dan oed neu fenyw feichiog, na ddylid, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a gynhwysir yn Erthygl 6, ystyried llety Gwely a Brecwast yn addas. Mae Erthygl 6 yn darparu ar gyfer rhai eithriadau mewn perthynas â'r cyfnod o amser a dreulir mewn llety Gwely a Brecwast, safon y llety Gwely a Brecwast, a dewis a wneir gan yr aelwyd ddigartref.

Diffinnir llety Gwely a Brecwast fel llety a ddarperir yn fasnachol nad yw, p'run ai a ddarperir brecwast ai peidio, yn hunangynhwysol, neu sydd yn golygu rhannu rhai cyfleusterau gydag aelwyd arall.

Wrth gyfrifo'r cyfnod o amser y cafodd aelwyd yn cynnwys person ifanc dan oed neu fenyw feichiog ei llety mewn llety Gwely a Brecwast, mae awdurdod tai lleol i anwybyddu unrhyw gyfnod a dreuliodd mewn llety o'r fath cyn 2 Ebrill 2007. Mae hefyd i anwybyddu unrhyw gyfnod a dreuliodd ymgeisydd o'r fath mewn llety Gwely a Brecwast pan oedd yn cael ei letya gan awdurdod tai lleol arall cyn y cafodd yr amodau ar gyfer atgyfeirio eu bodloni yn unol ag adrannau 198 i 200 o Ddeddf 1996. Mae'r adrannau hynny'n darparu, pan fo awdurdod tai lleol o'r farn fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi'u bodloni a bod gan yr ymgeisydd gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol arall, y caiff gyfeirio'r ymgeisydd at yr awdurdod hwnnw, ac, os bodlonir yr amodau ar gyfer atgyfeirio,

of social services and other support.

**Part 2** of this Order comes into force on 2 April 2007. It applies to accommodation made available under Part 7 of the 1996 Act. This Part relies on the powers in section 210(2)(a) and (b) of Part 7 of the 1996 Act. Article 4 of this Order specifies that Bed and Breakfast ("B&B") accommodation may only be regarded as suitable for the purposes of Part 7 of the 1996 Act if it complies with a Basic Standard. The Basic Standard requires that the B&B accommodation must firstly meet all statutory requirements. Some examples are fire and gas safety, planning permission and HMO licencing (where required). The premises must also be managed by a fit and proper person. Local Housing Authorities must have regard to the statutory guidance issued under section 182 of the 1996 Act in assessing whether a person is fit and proper.

Part 2 then specifies, in Article 5, additional circumstances in which accommodation must not be regarded as suitable. It does this by specifying minimum standards for B&B accommodation used for households containing or consisting of a minor or a pregnant woman. This includes households consisting only of one or more minors aged 16 or 17. Article 5 specifies that, where accommodation is provided under a duty under Part 7 of the 1996 Act to a household containing a minor or a pregnant woman, B&B accommodation is not to be regarded as suitable, subject to the exceptions contained in Article 6. Article 6 provides for certain exceptions relating to the length of time spent in B&B accommodation, the standard of the B&B accommodation, and the choice of the homeless household.

B&B accommodation is defined as commercially provided accommodation which, whether or not breakfast is provided, is not self contained or which involves sharing certain amenities with another household.

In calculating the total period of time during which a household containing a minor or pregnant woman has been housed in B&B accommodation, a local housing authority is to disregard any period spent in such accommodation before 2 April 2007. It is also to disregard any period spent in B&B accommodation where such an applicant was being housed by another local housing authority prior to the conditions for a referral being met in accordance with sections 198 to 200 of the 1996 Act. Those sections provide that, where a local housing authority is of the opinion that the conditions for a referral are met and that an applicant has a local connection with the district of another local authority, it may refer the applicant to that authority and, if the conditions for referral are met,

y bydd yr ail awdurdod o dan ddyletswydd o dan adran 193 o Ddeddf 1996 (y brif ddyletswydd lletya) mewn perthynas â'r ymgeisydd.

Daw **Rhan 3** o'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ebrill 2008. Mae'n gwneud y safonau yn Rhan 2 yn gymwys i bob mathau o lety a rennir sy'n cael ei ddarparu o dan Ran 7 o Ddeddf 1996. Mae hefyd yn ehangu'r cyfyngiadau ar ddarparu llety Gwely a Brecwast i fod yn gymwys i bob aelwyd y mae ei hangen yn flaenoriaeth. Mae'n cynnwys eithriadau sy'n debyg i'r rhai yn Rhan 2. Mae yna eithriad ychwanegol ar gyfer llety a reolir gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai gofrestredig.

Mae yna ddarpariaeth drosiannol ar gyfer cynlluniau tai cymdeithasol sy'n bodoli'n barod. Mae hyn yn darparu ar gyfer oedi o dair blynedd cyn y daw'r gofynion yn gymwys, sef hyd at 4 Ebrill 2011, ar gyfer y cynlluniau tai hynny sydd eisoes yn cael eu defnyddio i letya personau digartref cyn 7 Ebrill 2008.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys pan fo awdurdod tai lleol yn arfer pwerau disgrisiwn i gynorthwyo pobl ddigartref.

Dewiswyd y dyddiadau y bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym i gyd-daro â chychwyn y flwyddyn ariannol ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol yng Nghymru.

the second authority is subject to the duty under section 193 of the 1996 Act (the main housing duty) in respect of the applicant.

**Part 3** of this Order comes into force on 7 April 2008. It extends the Part 2 standards to all types of shared accommodation provided under Part 7 of the 1996 Act. It also extends restrictions on the provision of B&B accommodation to all priority need households. It contains exceptions which are similar to those in Part 2. There is an additional exception for accommodation managed by a local authority or registered housing association.

For existing social housing schemes, there is a transitional provision. This provides for a 3-year delay in application until 4 April 2011, for those housing schemes already used for housing homeless persons before 7 April 2008.

This Order does not apply where the local housing authority is exercising discretionary powers to assist homeless persons.

The dates when this Order is to come into force have been chosen to coincide with the start of the financial year for Local Housing Authorities in Wales.

**2006 Rhif 650 (C.71)****2006 No. 650 (W.71)****TAI, CYMRU****HOUSING, WALES****Gorchymyn Digartrefedd  
(Addasrwydd Llety) (Cymru)  
2006****The Homelessness (Suitability of  
Accommodation) (Wales) Order  
2006**

*Wedi'i wneud* 8 Mawrth 2006  
*Yn dod i rym*

*Made* 8 March 2006  
*Coming into force*

*Erthyglau 1 - 3* 3 Ebrill 2006  
*Erthyglau 4 - 6* 2 Ebrill 2007  
*Erthyglau 7 - 10* 7 Ebrill 2008

*Articles 1 - 3* 3 April 2006  
*Articles 4 - 6* 2 April 2007  
*Articles 7 - 10* 7 April 2008

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 210(2) a 215(2) o Ddeddf Tai 1996(1), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 210(2) and 215(2) of the Housing Act 1996(1), and now vested in the National Assembly for Wales(2), hereby makes the following Order:

**Enwi, cychwyn a chymhwysu****Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006.

1.-(1) The title of this Order is the Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order 2006.

(2) Heblaw fel y darperir ym mharagraffau (3) a (4) o'r Erthygl hwn, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2006.

(2) Save as provided in paragraphs (3) and (4) of this Article, this Order comes into force on 3 April 2006.

(3) Daw Erthyglau 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, a'r Atodlen iddo, i rym ar 2 Ebrill 2007.

(3) Articles 4, 5 and 6 of, and the Schedule to this Order come into force on 2 April 2007.

(4) Daw Erthyglau 7, 8, 9 a 10 o'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ebrill 2008.

(4) Articles 7, 8, 9 and 10 of this Order come into force on 7 April 2008.

(5) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â dyletswyddau awdurdodau tai lleol yng Nghymru o dan Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 (digartrefedd).

(5) This Order applies in relation to the duties of local housing authorities in Wales under Part 7 of the Housing Act 1996 (homelessness).

(1) 1996 p. 52

(1) 1996 c. 52

(2) *Gweler* O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 210 a 215, i'r graddau y gellir eu gweithredu mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. *Gweler* yr hyn a gynhwysir yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Dai 1996.

(2) *See* S.I. 1999/672. The functions of the Secretary of State under sections 210 and 215 are, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. See the entry in Schedule 1 for the Housing Act 1996.

## Dehongli

### 2. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Dai 1996; ac mae unrhyw gyfeiriad at adran gyda rhif yn gyfeiriad at adran o Ddeddf Dai 1996;

ystyr "llety a rennir" ("*shared accommodation*") yw llety-

- (a) nad yw'n fangre ar wahân a hunangynhwysol; neu
- (b) lle mae unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol heb fod ar gael i'r ymgeisydd neu wedi'i rannu gan fwy nag un aelwyd-
  - (i) toiled;
  - (ii) cyfleusterau ymolchi personol;
  - (iii) cyfleusterau coginio; neu
- (c) nad yw'n sefydliad a gofrestrwyd o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "llety Gwely a Brecwast" ("*B&B accommodation*") yw llety a ddarperir yn fasnachol (p'run ai a ddarperir brecwast ai peidio)-

- (a) nad yw'n fangre ar wahân a hunangynhwysol;
- (b) lle mae unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol heb fod ar gael i'r ymgeisydd neu wedi'i rannu gan fwy nag un aelwyd-
  - (i) toiled;
  - (ii) cyfleusterau ymolchi personol;
  - (iii) cyfleusterau coginio;
- (c) nad yw'n llety sy'n eiddo i awdurdod tai lleol, landlord cymdeithasol cofrestredig neu gorff gwirfoddol yn ôl diffiniad adran 180(3) o Ddeddf Tai 1996, neu'n cael ei reoli gan un o'r rhain; neu
- (ch) nad yw'n sefydliad a gofrestrwyd o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Safonau Gofal 2000(1);

ac mae "Gwely a Brecwast" ("*B&B*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "llety Gwely a Brecwast bach" ("*small B&B*") yw-

llety Gwely a Brecwast-

- (i) lle mae'r rheolwr yn byw ar y safle; a
- (ii) sydd â llai na 7 ystafell wely ar gael i'w gosod.

ystyr "llety o safon sylfaenol" ("*basic standard accommodation*") yw llety-

- (a) sydd yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol (megis gofynion yn ymwneud â diogelwch tân a nwy, cynllunio a thrwyddedau ar gyfer tai amlfeddiannaeth, lle bo hynny'n gymwys); a

## Interpretation

### 2. In this Order-

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Housing Act 1996; and any reference to a numbered section is a reference to a section of the Housing Act 1996;

"B&B accommodation" ("*llety Gwely a Brecwast*") means commercially provided accommodation (whether or not breakfast is included)-

- (a) which is not separate and self-contained premises;
- (b) in which any of the following amenities is not available to the applicant or is shared by more than one household-
  - (i) a toilet;
  - (ii) personal washing facilities;
  - (iii) cooking facilities;
- (c) which is not accommodation which is owned or managed by a local housing authority, a registered social landlord or a voluntary organisation as defined in section 180(3) of the Housing Act 1996; or
- (d) which is not an establishment registered under the provisions of the Care Standards Act 2000(1);

and "B&B" ("*Gwely a Brecwast*") is to be construed accordingly;

"basic standard accommodation" ("*llety o safon sylfaenol*") means accommodation that-

- (a) complies with all statutory requirements (such as requirements relating to fire and gas safety, planning and licences for houses in multiple occupation, where applicable); and
- (b) has a manager deemed by the local housing authority to be a fit and proper person with the ability to manage B&B accommodation;

and "basic standard" ("*safon sylfaenol*") is to be construed accordingly;

"higher standard accommodation" ("*llety o safon uwch*") means accommodation that meets-

- (a) the basic standard; and
- (b) the standards contained in the Schedule to this Order,

and "higher standard" ("*safon uwch*") is to be construed accordingly;

"shared accommodation" ("*llety a rennir*") means accommodation-

- (a) which is not separate and self-contained premises; or
- (b) in which any of the following amenities is not available to the applicant or is shared by more



(b) sydd â rheolwr y mae'r awdurdod tai lleol yn ystyried ei fod yn berson cymwys a phriodol gyda'r gallu i reoli llety Gwely a Brechwast;

ac mae "safon sylfaenol" ("*basic standard*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "llety o safon uwch" ("*higher standard accommodation*") yw llety sy'n bodloni-

(a) y safon sylfaenol; a

(b) y safonau a gynhwysir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn,

ac mae "safon uwch" ("*higher standard*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

### RHAN 1(1)

Materion ychwanegol sydd i'w hystyried pan fyddir yn penderfynu ar addasrwydd

3. Wrth benderfynu at ddibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996 p'run ai a yw llety'n addas ar gyfer person y mae ei angen yn flaenoriaeth(2) rhaid cymryd y materion canlynol i ystyriaeth-

- (a) anghenion iechyd penodol y person;
- (b) agosatrwydd a hygyrchedd y gwasanaethau cymdeithasol;
- (c) agosatrwydd a hygyrchedd cymorth gan deulu neu wasanaethau cymorth eraill; neu
- (ch) unrhyw anabledd sydd gan y person.

### RHAN 2(3)

Amgylchiadau sy'n gymwys o 2 April 2007 pryd na ellir ystyried bod llety'n addas

#### **Yr angen i Lety Gwely a Brechwast a ddefnyddir i letya person digartref fodloni'r safon sylfaenol**

4. Ar gyfer ddibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996, nid yw llety Gwely a Brechwast i'w ystyried yn addas oni bai ei fod yn bodloni'r safon sylfaenol o leiaf.

---

(1) *Daw i rym*: 3 Ebrill 2006.

(2) *Gweler* y diffiniad o "priority need" yn adran 189(1) o Ddeddf Tai 1996 ac yn O.S. 2001/607.

(3) *Daw i rym*: 2 Ebrill 2007.

than one household-

- (i) a toilet;
- (ii) personal washing facilities;
- (iii) cooking facilities; or

(c) which is not an establishment registered under the provisions of the Care Standards Act 2000;

"small B&B" ("*llety Gwely a Brechwast bach*") means-

B&B accommodation-

- (i) where the manager resides on the premises; and
- (ii) which has fewer than 7 bedrooms available for letting.

### PART 1(1)

Additional matters to be taken into account in determining suitability

3. In determining for the purposes of Part 7 of the 1996 Act whether accommodation is suitable for a person in priority need(2) there must be taken into account the following matters-

- (a) the specific health needs of the person;
- (b) the proximity and accessibility of social services;
- (c) the proximity and accessibility of the support of the family or other support services; or
- (d) any disability of the person.

### PART 2(3)

Circumstances applying from 2 April 2007 in which accommodation is not to be regarded as suitable

#### **B&B accommodation used for housing a homeless person to meet the basic standard**

4. For the purposes of Part 7 of the 1996 Act, B&B accommodation is not to be regarded as suitable unless it meets at least the basic standard.

---

(1) *Cif*: 3 April 2006.

(2) *See* the definition of "priority need" in section 189(1) Housing Act 1996 and S.I. 2001/607.

(3) *Cif*: 2 April 2007.

## **Y gofyniad i beidio a ystyried Gwely a Brecwast yn addas ar gyfer person ifanc dan oed neu fenyw feichiog**

5. Ar gyfer ddibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996 ac yn ddarostyngedig i'r eithriadau a gynhwysir yn Erthygl 6, nid yw llety Gwely a Brecwast i'w ystyried yn addas ar gyfer person ifanc dan oed neu fenyw feichiog.

### **Eithriadau**

6.-(1) Nid yw Erthygl 5 yn gymwys-

- (a) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast o safon sylfaenol am gyfnod, neu gyfanswm o gyfnodau, nad yw'n hwy na dwy wythnos;
- (b) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast o safon uwch am gyfnod, neu gyfanswm o gyfnodau, nad yw'n hwy na 6 wythnos;
- (c) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast bach o safon sylfaenol am gyfnod, neu gyfanswm o gyfnodau, nad yw'n hwy na 6 wythnos, a bod yr awdurdod tai lleol, cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), wedi cynnig llety amgen addas, ond bod y person wedi dewis aros yn y llety Gwely a Brecwast y cyfeiriwyd ato;
- (ch) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast bach o safon sylfaenol ar ôl gwneud y dewis y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) uchod, a bod yr awdurdod tai lleol wedi cynnig llety amgen addas cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) uchod, ond bod y person wedi dewis aros yn y llety Gwely a Brecwast y cyfeiriwyd ato; neu
- (d) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast bach o safon uwch, a bod yr awdurdod tai lleol wedi cynnig llety amgen addas cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) uchod, ond bod y person wedi dewis aros yn y llety Gwely a Brecwast y cyfeiriwyd ato.

(2) Os yw'r llety amgen addas a gynigir at ddibenion paragraff (1) wedi'i rannu, rhaid iddo fodloni'r safon uwch.

(3) Yn achos aelwydydd sydd yn cynnwys dibynyddion sy'n blant, neu fenyw feichiog, rhaid i'r cynnig a wneir o dan is-baragraffau (ch) neu (d) fod o lety hunangynhwysol addas. Yn achos ymgeisydd sy'n berson ifanc dan oed, rhaid i'r cynnig fod o lety addas gyda chymorth.

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnod, y bu person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast at ddibenion paragraff (1), rhaid anwybyddu-

## **B&B accommodation not to be regarded as suitable for a minor or a pregnant woman**

5. For the purposes of Part 7 of the 1996 Act and subject to the exceptions contained in Article 6, B&B accommodation is not to be regarded as suitable for a person who is a minor or a pregnant woman.

### **Exceptions**

6.-(1) Article 5 does not apply where-

- (a) the person occupies a basic standard B&B for a period, or a total of periods, which does not exceed 2 weeks;
- (b) the person occupies a higher standard B&B for a period or a total of periods which does not exceed 6 weeks;
- (c) the person occupies a basic standard small B&B for a period or a total of periods which does not exceed 6 weeks, and the local housing authority has, before the expiry of the two-week period referred to in sub-paragraph (a), offered suitable alternative accommodation, but the person has chosen to remain in the said B&B;
- (d) the person occupies a basic standard small B&B after exercising the choice referred to in sub-paragraph (c) above, and the local housing authority has offered suitable alternative accommodation before the end of the six-week period referred to in sub-paragraph (c) above, but the person has chosen to remain in the said B&B; or
- (e) the person occupies a higher standard small B&B, and the local housing authority has offered suitable alternative accommodation, before the expiry of the six-week period referred to in sub-paragraph (b) above, but the person has chosen to remain in the said B&B.

(2) If the suitable alternative accommodation offered for the purposes of paragraph (1) is shared, it must meet the higher standard.

(3) In the case of households with dependant children or a pregnant woman, the offer made under sub-paragraphs (d) or (e) must be of suitable self-contained accommodation. In the case of an applicant who is a minor, the offer must be of suitable accommodation with support.

(4) In calculating a period, or total period, of a person's occupation of B&B accommodation for the purposes of paragraph (1), there must be disregarded-

- (a) unrhyw gyfnod cyn 2 Ebrill 2007; a
- (b) pan fo awdurdod tai lleol(1) yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 193 yn rhinwedd adran 200(4)(2), unrhyw gyfnod cyn y daeth yr awdurdod hwnnw yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno.

- (a) any period before 2 April 2007; and
- (b) where a local housing authority(1) is subject to the duty under section 193 by virtue of section 200(4)(2), any period before that authority became subject to that duty.

### RHAN 3(3)

Ehangu'r darpariaethau o 7 Ebrill 2008 i'r holl llety a ddarperir wrth gyflawni swyddogaethau digartrefedd

#### Y gofyniad i beidio a ystyried llety Gwely a Brecwast yn addas ar gyfer person y mae ei angen yn flaenoriaeth

7. Ar gyfer dibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996, ac yn ddarostyngedig i'r eithriadau a gynhwysir yn erthygl 9, nid yw llety Gwely a Brecwast i'w ystyried yn addas ar gyfer person y mae ei angen yn flaenoriaeth.

#### Y gofyniad i lety a rennir i fodloni'r safon uwch

8. Ar gyfer dibenion Rhan 7 o Ddeddf 1996, ac yn ddarostyngedig i'r eithriadau a gynhwysir yn erthyglau 9 a 10, nid yw llety a rennir i'w ystyried yn addas ar gyfer person y mae ei angen yn flaenoriaeth heblaw bod y llety hwnnw'n bodloni'r safon uwch.

#### Eithriadau

9. (1) Nid yw Erthyglau 7 ac 8 yn gymwys-
- (a) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast o safon sylfaenol am gyfnod, neu gyfanswm o gyfnodau, nad yw'n hwy na dwy wythnos;
  - (b) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast o safon uwch am gyfnod, neu gyfanswm o gyfnodau, nad yw'n hwy na 6 wythnos;
  - (c) os yw'r person yn lletya mewn llety Gwely a Brecwast bach o safon sylfaenol am gyfnod, neu gyfanswm o gyfnodau, nad yw'n hwy na 6 wythnos, a bod yr awdurdod tai lleol, cyn diwedd y cyfnod o ddwy wythnos y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), wedi cynnig llety amgen addas, ond bod y person wedi dewis aros yn y llety Gwely a Brecwast y cyfeiriwyd ato;

### PART 3(3)

Extension from 7 April 2008 to all accommodation provided in discharge of homelessness functions

#### B&B accommodation not to be regarded as suitable for a homeless person in priority need

7. For the purposes of Part 7 of the 1996 Act and subject to the exceptions contained in article 9, B&B accommodation is not to be regarded as suitable for a person who is in priority need.

#### Shared accommodation to meet the higher standard

8. For the purposes of Part 7 of the 1996 Act and subject to the exceptions contained in articles 9 and 10, shared accommodation is not to be regarded as suitable for a person who is in priority need unless it meets the higher standard.

#### Exceptions

9. (1) Articles 7 and 8 do not apply where-
